

PARRI, HARRI ('Harri Bach o Graig-y-gath'; 1709? - 1800), bardd a chlerwr

Enw: Harri Parri
Ffugenw: Harri Bach O Graig-y-gath
Dyddiad geni: 1709?
Dyddiad marw: 1800
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd a chlerwr
Maes gweithgaredd: Perfformio; Barddoniaeth
Awdur: Enid Pierce Roberts

Dywedir ei eni yng Nghraig-y-gath, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Sir Drefaldwyn, yn 1709. Llifiwr coed oedd i ddechrau, ond treuliodd y 30 mlynedd olaf o'i oes yn clera gan ganu carolau o'i waith ei hun ar hyd y ffeiriau. Cyfansoddai garol Mai newydd bob blwyddyn, yn adrodd helyntion hynotaf y flwyddyn flaenorol, a dechreuai ei chanu yn Ebrill. Mynychai'r mân eisteddfodau ac y mae rhai o'i englynion ar gael yn yr almanaciau, eithr ychydig o'i waith a argraffwyd. Araf ac afrwydd oedd ei awen; nid oedd yn ddigon ffraeth i ateb '[Twm o'r Nant](#)' mewn ymryson. Dyn bychan, diniwed, ydoedd, a thybïai am ei eni y flwyddyn y bu farw [Huw Morys](#) mai arno ef y disgynnodd mantell '[Eos Ceiriog](#).' Gellid tybio oddi wrth ei englynion yn *Almanac Gwilym Howell*, 1774, ei fod yn casáu'r Methodistiaid a'r Anghydfurfwyr.

Dywedir mai yn Llanfyllin y bu farw, mewn dygn dlodi, yn 90 oed. Claddwyd ef ym mynwent Llanfihangel-yng-Ngwynfa 15 Tachwedd 1800.

Awdur

Dr Enid Pierce Roberts

Ffynonellau

Almanac Siôn Prys (1744)

Almanac W. Hywel (Llanidloes 1773)

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1881, 239

R. Ellis (Cynddelw), *Manion Hynafiaethol, neu, Loffyn o hen gofion Cymruaidd*, 42-3

Y Geninen (G y l Dewi), 1887, 75

Y Geninen, 1886, 65

Y Gwyllydydd, 1883, 153

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 235

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Harri Parri \(Harri Bach o Graig-y-gath\)](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361205](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.